# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 15 MAWRTH 2017 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C R Doyle | P Lloyd |
| P M Matthews | P B Smith | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Rheolwr Strategol Corfforaethol - Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M B Lewis, C Thomas a T M White

64 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

65 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2017 fel cofnod cywir.

66 **CAFFAEL TIR AC EIDDO - SENARIO DAMCANIAETHOL.**

Rhoddodd Rheolwr Strategol Corfforaethol - Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol senario damcaniaethol i'r pwyllgor mewn perthynas â sut mae'r cyngor yn caffael tir ac eiddo.

Gofynnodd y cynghorwyr amryw o gwestiynau ac ymatebodd y Swyddog yn briodol.

**Cytunodd** y Pwyllgor fod y Polisi mewn perthynas â Chaffael Tir ac Eiddo yn gadarn; fodd bynnag, codwyd cwestiynau mewn perthynas â pholisi'r cyngor o ran gwerthu tir/adeiladau.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad;
2) Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad pellach mewn perthynas â gwerthu tir/adeiladau.

67 **NEILLTUO STRYD Y GWYNT I GERDDWYR - CAMAU NESAF (DIWEDDARIAD AR LAFAR).**

Rhoddodd y Cadeirydd, ar ran Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd ddiweddariad llafar mewn perthynas â throi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr.

Adroddodd fod cais wedi cael ei anfon i Gyngor Caerdydd i ofyn am gyngor i swyddogion allweddol er mwyn ceisio eglurhad ar faterion megis hyd a lled yr ymgynghoriad, mynediad i bobl anabl ac amseroedd dosbarthu nwyddau/trefniadau mynediad. Arhoswyd am ymateb.

Roedd y Pwyllgor yn siomedig gyda diffyg cynnydd a gofynnwyd i Aelod y Cabinet ac Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd ddod i'r cyfarfod nesaf er mwyn darparu mwy o fanylion.

**PENDERFYNWYD** bod Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant ac Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

68 **Y DIWEDDARAF GAN Y CADEIRYDD (LLAFAR).**

Nid oedd unrhyw ddiweddariad i'w adrodd.

69 **CYNLLUN GWAITH.**

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r cynllun gwaith diwygiedig;
2) Ychwanegu Gwaith Datblygu PCC a Chamau Gweithredu 2016 - 2017 at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf;
3) Trefnu ymweliad safle â'r Siop Ailddefnyddio ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 27 Mawrth 2017.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.22 pm

**CADEIRYDD**